

BRIFFIO POLISI



DIWEDDARIADAU POLISI TAI

- Newidiadau i Gredyd Cynhwysol
- Cyflenwi Tai Cymdeithasol
- Newidiadau rhent
- Profiad byw Sero Net

POLISI A DYLANWADU

Mae TPAS Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phenderfynwyr allweddol eraill. Rydym yn cyfrannu at newid polisi trwy hysbysu am ddatblygiadau a materion polisi, sianelu profiad ac anghenion tenantiaid a landlordiaid i lunwyr polisi, a gweithio gyda sefydliadau partner i ddylanwadu ar bolisi.

Ebrill 2024 - Mai 2024

NEWIDIADAU I GREDYD CYNHWYSOL

O ddydd Llun 13 Mai, bydd angen i bobl sy'n hawlio credyd cynhwysol weithio o leiaf 18 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol. Cyn hynny, 15 awr oedd hyn. Os ydych yn hawlio credyd cynhwysol ac yn gweithio llai na 18 awr, gofynnir i chi gynyddu eich chwiliad gwaith.

Darllenwch fwy yma:

<https://www.gov.uk/government/news/new-rules-require-180000-on-universal-credit-to-increase-working-hours>

YMGYNGHORI AR Y CYFLENWAD TAI CYMDEITHASOL

Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ymchwiliad i'r cyflenwad tai cymdeithasol i ddeall nifer o bethau, ac un ohonynt yw sut y gall cymunedau lleol ymwneud yn effeithiol â datblygiadau tai cymdeithasol yn eu hardaloedd. Bydd David Wilton, Prif Weithredwr TPAS Cymru yn rhoi tystiolaeth lafar i roi mewnwelediad i'r pwyllgor o brofiadau bywyd tenantiaid.

FFORDDIADWYEDD RHENTI MEWN TAI CYMDEITHASOL

Bydd landlordiaid cymdeithasol yn gallu gosod eu rhenti eu hunain yn unol â chanllawiau'r safon rhenti. Mae hyn yn golygu y bydd tenantiaid mewn caledi ariannol yn parhau i gael eu cefnogi. Darllenwch fwy yma:

<https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-fforddiadwyedd-wrth-wraidd-polisi-rhent-cymdeithasol>

MAE EIN PWLS TENANTIAID SERO NET DIWEDDARAF WEDI LANSIO

Mae deall ymgysylltiad tenantiaid yn allweddol i lwyddiant Datblygiad Tai Carbon Isel. Fe wnaethom gynnal arolwg o aelodau Pwls Tenantiaid am y 3edd flwyddyn, gan greu dealltwriaeth ehangach o anghenion, canfyddiadau ac agweddau.



Datgelodd ein canfyddiadau fod 72% o denantiaid yn teimlo bod eu costau gwresogi yn anfforddiadwy ac nad oedd 88% yn gwybod am welliannau ynni-effeithlon i'w heiddo. I gael rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau ac agweddau tenantiaid ynghylch Sero Net, gweler yma: <https://www.tpas.cymru/blog/pwls-tenantiaid-cymru-gyfan-4ydd-arolwg-blynyddol-ar-sero-net-ac-effeithlonrwydd-ynni>